# BE THE WAVE
# AR FRIG Y DON

# Economi Gylchol

Cynllun Gwers



cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

MARINE CONSERVATION SOCIETY

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddosoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

| Nodau |
| --- |
| • Deall egwyddorion economi gylchol a sut mae trosglwyddo i'r ffordd hon o ddefnyddio adnoddau yn rhoi buddion i'r amgylchedd a chymdeithas.<br>• Codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â sbwriel morol ac annog disgyblion i weithredu'n gadarnhaol er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. |
| **Amcanion** |
| • Darganfod ystyr y term 'Economi Gylchol' a sut mae hwn yn wahanol i'r ffordd o fyw 'economi linellol' bresennol.<br>• Trafod ffyrdd o gefnogi'r newid i Economi Gylchol a sut mae'r dewisiadau rydym yn eu gwneud yn gallu arwain at ganlyniadau amgylcheddol gwell.<br>• Cymhwyso gwybodaeth o'r Economi Gylchol i fywyd bod dydd drwy weithrediadau #BodArFrigYDon a rhaglen Eco-Sgolion. |

| Pwnc Eco-Sgolion | Nodau Byd-eang |
| --- | --- |
| • Sbwriel<br>• Lleihau Gwastraff | • 12 – Defnydd Cyfrifol<br>• 14 – Byw o Dan y Dŵr |

| Cysylltiadau i'r Cwricwlwm | |
| --- | --- |
| **Diben** | |
| Dinasyddion moesegol a gwybodus sy'n:<br>• Dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned<br>Unigolion iach a hyderus sy'n:<br>• Meddu ar werthoedd diogel a sefydlu credoau moesegol | |
| **Beth sy'n bwysig** | **Cam Cynnydd: 4** |
| Dyniaethau<br>• Meddu ar ddealltwriaeth o gyfrifoldebau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol eich hun ac eraill mewn creu dyfodol cynaliadwy.<br>• Trafod a heriau safbwyntiau'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau a chynrychiolwyr etholedig yn fy nghymuned ac ar lefel genedlaethol.<br>• Disgrifio effeithiau gwyddoniaeth a thechnoleg yn y gorffennol a'r presennol, ar gymdeithas.<br>• Gwerthuso dulliau o weithio'n gyfrifol sy'n ystyried effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol. | |
| **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd** | **Cam Cynnydd: 4** |
| • Rhannu, siarad ac ysgrifennu am fy meddyliau, fy nheimladau a'm barn gan ddangos empathi a pharch. | |

| Gweithgaredd 1 | Adnoddau ac Offer |
|---|---|
| **Beth yw ystyr 'Economi Gylchol?**<br><br>Gwyliwch y fideo gan yr Ellen MacArthur Foundation (3:50).<br><br>Trafodwch mewn grwpiau neu fel dosbarth cyfan gylch bywyd rhywbeth naturiol sy'n cael ei ganfod yn y môr, e.e. pysgodyn a gwnewch ddiagram o gamau gwahanol i ddangos sut mae'n gylchol. Trafodwch gylch bywyd rhywbeth sydd wedi'i wneud gan ddyn y byddech yn defnyddio ar y traeth, e.e. potel ddiodydd, tywel traeth, bwced a rhaw ac yn y blaen. Meddyliwch am sut y cafodd ei wneud, pa ddeunyddiau y mae'n cael eu gwneud ohono, beth sy'n digwydd iddo ar ôl iddo gael ei ddefnyddio? Gwnewch ddiagram o gylch bywyd yr eitem hon. Ydy'r cylch bywyd yn 'gylchol' neu'n 'llinellol'? Gallwch ddefnyddio'r cardiau didoli i gefnogi'r gweithgaredd hwn. | Taflen Waith Gweithgaredd 1<br><br><br><br><br><br>Cardiau didoli cylch bywyd pysgodyn a bwced a rhaw |

| Gweithgaredd 2 | Adnoddau ac Offer |
|---|---|
| **Cynnal 'awtopsi' o eitem sydd wedi'i thaflu.**<br><br>Gwnewch 'awtopsi' mewn grwpiau er mwyn darganfod pa bethau sydd wedi cael eu defnyddio wrth wneud yr eitem hon.<br>Trafodwch yr opsiynau ar gyfer gwaredu'r eitem.<br>Trafodwch a ellir atgyweirio, ail-wneud neu ailgylchu'r eitem yn hawdd pan fydd yn cyrraedd diwedd ei hoes.<br>Ystyriwch a oes unrhyw ffyrdd eraill y gallwch feddwl amdanynt a fyddai'n ymestyn ei bywyd. | Taflen Waith Gweithgaredd 2<br><br>Amrywiaeth o eitemau sydd wedi'u defnyddio e.e.<br>• Carton sudd<br>• Pinnau ffelt<br>• Ffon glud<br>• Cwpan coffi ailgylchadwy<br>• Hen grys t<br>• Ffon gotwm<br>• Hen ffôn symudol<br><br>Mynediad at offer TGCh |

| Gweithgaredd 3 | Adnoddau ac Offer |
|---|---|
| **Sut allwn ni i gyd helpu i wneud gwahaniaeth?**<br>Gweithiwch mewn parau i wneud rhestr o'r pethau rydych chi wedi'u prynu, pethau sydd wedi cael eu rhoi i chi y mis hwn. Gall fod yn fwyd, cynnyrch harddwch, adloniant, dillad/eitemau ffasiwn neu unrhyw beth arall!<br><br>Trafodwch o beth maen nhw wedi cael eu gwneud, pa mor hir y byddan nhw'n para, beth fyddwch chi'n gwneud gyda'r eitemau pan fyddan nhw wedi gorffen/ does dim ei angen arnoch chi mwyach? Allwch chi feddwl am syniadau eraill a fydd yn creu llai o wastraff. Meddyliwch am Atgyweirio, ail-ddefnyddio ac ail-lenwi'r eitemau yn lle eu taflu.<br><br>Trafodwch eich syniadau fel dosbarth a gwnewch restr o syniadau'r dosbarth. | |

| Gweithgareddau Gwahanol | Adnoddau ac Offer |
|---|---|
| 1. Trafodwch fanteision ac anfanteision Cynllun Dychwelyd Ernes, lle rydych yn talu mwy o arian am ddiod mewn can neu botel. Mae'r arian ychwanegol neu 'ernes' yn cael ei ddychwelyd atoch chi pan rydych chi'n mynd â'r botel neu'r can yn ôl.<br>Ydych chi'n meddwl y byddai hyn yn annog pobl i ailgylchu ei photeli a chaniau? Faint o werth ydych chi'n meddwl sydd angen ei ychwanegu at y cynhwysydd i'w wneud hyn yn werth chweil?<br>Ydych chi'n meddwl y byddai hyn yn gweithio i eitemau eraill megis cynwysyddion cludfwyd?<br>Sut mae hyn y cymharu â'r tâl 5c a godir ar fagiau plastig, ydych chi'n meddwl bod hyn wedi gwneud gwahaniaeth?<br>2. Gwyliwch y fideo hwn(6 munud 35 eiliad) sy'n esbonio am syniad i frandiau mawr ddarparu pecynnu ailddefnyddiadwy. Ydych chi'n meddwl y byddai hyn yn gweithio?<br>3. Ymchwiliwch i fusnesau/sefydliadau sy'n cyfrannu at yr Economi Gylchol. Dyma rai syniadau cychwynnol:<br><br>http://www.plastecowood.com/<br>https://hiutdenim.co.uk/ | |

#ArFrigYDon

Cymhwyso'r wybodaeth a gafodd eu casglu yn y wers fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Mae'n agwedd bwysig i sicrhau bod disgyblion yn gwybod bod ganddynt y pŵer i weithredu a gwneud newidiadau yn eu bywydau eu hunain ac o fewn yr ysgol. Mae'n gam cadarnhaol hefyd sy'n helpu i gydbwyso rhai o'r effeithiau negyddol a gafodd eu harchwilio yn y wers.

Penderfynu ar weithred/gweithredoedd i'w cymryd naill ai fel unigolion neu ddosbarth. Dyma rai awgrymiadau neu gallai'r dosbarth benderfynu ar rai eu hunain.

Ysgol:



- Ydy ffreutur eich ysgol yn defnyddio eitemau defnydd sengl/tafladwy? Gweithiwch gyda'r staff perthnasol i ddod o hyd i ddewisiadau eraill a fydd yn lleihau nifer yr adnoddau sy'n dod i mewn i'r gegin, ac yn hollbwysig, leihau faint o wastraff sy'n gadael y gegin.
- Ewch i lanhau traeth a chofnodwch yr eitemau rydych yn darganfod yno. Faint o'r eitemau na fyddai yno pe bai bod gennym economi gwbl gylchol?

Unigolion:



- Ymchwiliwch i'ch Caffi Atgyweirio Lleol a threfnu mynd ag eitem yno os oes angen ei hatgyweirio.
- Edrychwch i ymestyn bywyd oes dyfeisiau electronig cymaint ag sy'n bosibl. Mae'r Ganolfan Amgylcheddol Ewropeaid (EEB) yn dweud y byddai ymestyn bywyd oes ffonau clyfar a dyfeisiau electronig eraill am un flwyddyn un unig gyfwerth â thynnu dwy filiwn o geir oddi ar y ffordd, yn nhermau allyriadau $CO2$.
- Newidiwch o eitemau defnydd sengl i ddewisiadau ailgylchadwy - cofiwch i'w ailddefnyddio! Edrychwch ar wefan Refill Wales a heriwch eich hun i beidio â phrynu dŵr potel am weddill y flwyddyn!

| | |
|---|---|
| **Eitem naturiol a geir yn y môr neu'n agos iddo:** | |
| Tynnwch lun o gylch bywyd yr eitem | |
| **Eitem wedi'i gwneud gan ddyn a geir yn y môr neu'n agos iddo:** | |
| O ba ddeunyddiau mae'r eitem wedi'i gwneud? | |
| Ydy hi'n eitem defnydd sengl neu a fyddai'n cael ei defnyddio eto? | |
| Beth sy'n digwydd i'r eitem ar ôl iddi gael ei defnyddio? | |
| Tynnwch lun o gylch bywyd yr eitem | |
| Ydy'r cylch bywyd yn 'gylchol' neu'n 'llinellol'? | |

Cylch Bywyd Pysgodyn - Didoli Cardiau

| | | |
|---|---|---|
| **Wy** |  | Mae'n cael ei ffrwythloni gyda sberm. Mae'n cynnwys yr embryo sy'n datblygu. |
| **Larfa** |  | Mae wedi'i ddeor ac mae'r cwd melynwy dal ynghlwm er mwyn darparu maetholion am tua 4 diwrnod wrth i'r llygaid a'r geg ddatblygu. |
| **Silod Mân** |  | Maen nhw'n fach iawn a dydyn nhw ddim yn dibynnu ar y melynwy bellach gan eu bod yn gallu bwydo'n annibynnol. Maen nhw'n datblygu a thyfu o hyd. |
| **Ifanc** |  | Mae'n edrych yn debyg i oedolyn, ond dydy e ddim wedi aeddfedu'n rhywiol. |
| **Oedolyn** |  | Mae wedi tyfu'n llawn ac wedi'i aeddfedu'n rhywiol. |
| **Silio** |  | Mae wyau a sberm yn cael eu gollwng ac mae rhai wyau'n cael eu ffrwythloni. |

Cylch Bywyd Bwced a Rhaw – Didoli Cardiau

| | | |
|---|---|---|
| **Tynnu** |  | Mae olew crai a nwy naturiol yn cael eu tynnu o’r ddaear |
| **Puro** |  | Mae’r olew a’r nwy yn cael eu hanfon i gael eu puro er mwyn cael ethan a phropan sy’n cael eu defnyddio i greu plastig |
| **Hollti** |  | Mae’n cael ei hollti’n moleciwlau llai; ethylen a phropylen |
| **Polymeriad** |  | Mae’n cynhyrchu resinau plastig; polyethylen a pholypropylen |
| **Cyn-Cynhyrchu** |  | Mae wedi’i oeri a’i dorri’n ddarnau cyn-cynhyrchu o’r enw ‘nurdles’ (peledi plastig) |
| **Cludo** |  | Mae’r peledi plastig (nurdles) yn cael eu cludo i’r ffatrïoedd i wneud nwyddau plastig |

| | | |
|---|---|---|
| **Mowldio Chwistrellu** |  | Mae’r peledi plastig yn cael eu cynhesu i gynhyrchu hylif plastig. Yna mae’r hylif yn cael ei wasgu i fowldiau i wneud siapiau bwced a rhaw. Yna mae’r rhain yn cael eu hoeri a’u hanfon i adran arall yn y ffatri i gael eu pacio. |
| **Pacio** |   | Mae’r bwcedi a’r rhawiau yn cael eu pecynnu o fewn rhwyll blastig i gadw’r eitemau gyda’i gilydd. Yna mae llawer o fwcedi a rhawiau yn cael eu rhoi mewn bocsys mawr yn barod i gael eu cludo. |
| **Cludo** |  | Mae’r bocsys yn cael eu cludo o’r ffatrïoedd i’r siopau yn barod i gael eu gwerthu. |
| **Masnach** |  | Mae bwcedi a rhawiau yn cael eu rhoi ar silffoedd/ mewn stordai yn barod i gael eu gwerthu i gwsmeriaid. |
| **Defnyddio** |  | Mae’r bwcedi a’r rhawiau yn cael eu defnyddio am ddiwrnod/wythnos/blynyddoedd bendigedig ar y traeth gan deuluoedd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwaredu** |  | Does dim angen y bwcedi a’r rhawiau mwyach ac maen nhw’n cael eu gwaredu neu’n cael eu gadael ar y traeth, neu’n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi. |
| **Safle Dirlenwi** |  | Mae’r bwced a’r rhaw yn cymryd tua 450 o flynyddoedd i ddirwyo’n llwyr i ficroblastigau. |



Economi Gylchol: Taflen Waith - Gweithgaredd 2

| **Eitem** | **O beth mae wedi'i gwneud?** | **Sut fyddwch chi'n cael gwared ar yr eitem hon?** | **Ydy hi'n bosibl i drwsio'r eitem, ei hail-wneud neu ei hailgylchu'n drosodd a throsodd?** | **Ydych chi'n meddwl bod yr eitem hon yn 'gylchol' neu'n 'llinellol'? Hynny yw – a ellir ei defnyddio dro ar ôl tro neu a fydd yn cyrraedd safle dirlenwi / neu gael ei llosgi fel tanwydd yn y pen draw.** | **Sut y gallai'r eitem ddod yn fwy 'cylchol' neu a oes dewis 'cylchol' arall?** |
|---|---|---|---|---|---|
| *Can diod* | *Alwminiwm* | *Bin ailgylchu* | *Mae'n cael ei ailgylchu'n anfeidraidd - cyn belled â'i fod yn cael ei roi yn y bin cywir bob tro* | *Cylchol - posibl* | *Ychwanegu gwerth at y can er mwyn annog pobl i'w ailgylchu* |
| *Pâr o esgidiau rhedeg* | *Plastig, rwber, metel, tecstilau* | *Gwastraff cyffredinol neu safle ailgylchu esgidiau rhedeg* | *Anodd eu trwsio ar ôl iddyn nhw dreulio* | *Llinellol* | *Gwisgo'r esgidiau rhedeg nes iddyn nhw dreulio, neu rhoi nhw i rywun arall* |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

BE THE WAVE

AR FRIG Y DON

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13